gunsmoke
communications
PR | MEDIA | MARKETING




**Bydd 'GWESTAI BRENHINOL' yn dod i dref yng Ngogledd Cymru fel rhan o benwythnos dathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines.**

Gyda'r wlad gyfan yn dod at ei gilydd i ddathlu 70 mlynedd y Frenhines ar yr orsedd, bydd Cyngor Tref y Rhyl yn cynnal ei ddiwrnod ei hun o weithgareddau am ddim, gyda hwyl a gemau a rhai ymwelwyr 'bybli'.

Cynhelir *Gŵyl Frenhinol y Rhyl* ar ddydd Sadwrn Mehefin 4 ar stryd fawr y dref ac mae'n cynnwys ymweliad cyntaf gan westai brenhinol hanesyddol, crefftau a gweithgareddau ar thema frenhinol a gweithgareddau traddodiadol glan y môr. Uchafbwynt y dydd fydd ymweliad gan  Sinema Sol, sinema leiaf y byd, sy'n cael ei phweru gan yr haul.

Ffefryn yng ngŵyl Glastonbury, er gwaethaf ei maint bychan, mae Sinema Sol, er gwaethaf ei maint bychan, yn denu torfeydd  ble bynnag y mae'n mynd.

Meddai Clerc y Dref Gareth Nickels: "Ar hyd a lled y wlad, bydd pobl yn dathlu'r ffaith bod y Frenhines wedi teyrnasu hiraf ym Mhrydain. Bydd y Rhyl yn ymuno yn y dathliadau, gyda diwrnod llawn o adloniant am ddim i'r teulu i ddathlu'r achlysur hanesyddol.

**Mwy/…**

gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING



"Bydd llawer o hwyl i'w gael gyda stondinau ffair hen ffasiwn, chwythwr swigod, Sinema Sol gyda'i ffilmiau hyfryd, ac ymweliad gan westai brenhinol o'r gorffennol – dim ond rhai o'r pethau y gall trigolion ac ymwelwyr edrych ymlaen atynt."

Ynghyd â'r gemau, bydd plant yn gallu gwneud eu coron eu hunain, bydd peintio wynebau am ddim a bydd Canolfan Gristnogol Sussex Street yn cynnig sesiynau gwneud bathodynnau a rhedeg prosiect i greu cerdd i ddathlu'r penwythnos arbennig. Bydd plant sy'n dod wedi eu gwisgo fel tywysog neu dywysoges yn cael gwobr.

Meddai Paul O'Connor, cyd-sylfaenydd Sinema Sol: "Rydym wrth ein boddau yn dod i Ogledd Cymru ac rydym yn cael croeso bob tro. Rydym yn falch iawn o gael ein gwahodd i gymryd rhan yn y penwythnos arbennig yma; edrychwn ymlaen at agor y sinema a chroesawu gwesteion ar gyfer diwrnod brenhinol iawn yn y Rhyl."

Cynhelir gŵyl frenhinol y Rhyl ar stryd fawr y dref rhwng 11am-4pm ar ddydd Sadwrn Mehefin 4.

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications